# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol (Cyfarfod Rhithiol) o'r Cygor a gynhaliwyd ar
**Nos Iau 21 Ebrill 2022 am 18.30**
*cynhaliwyd y cyfarfod drwy ddefnyddio Zoom*

**PRESENNOL:**

Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd Mair Owen Pierce
Y Cynghorydd Mair Leverett
Y Cynghorydd Mary Hayes
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd Angharad Williams

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod rhithiol gan y Cadeirydd, Cyng. Huw Jones. **Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. Lowri Jones, Gwen Griffith, David H Roberts, Iwan Hywel a Gabrielle Wyn.

2. **Cofnodion**
   **Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2021.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

3.1 **Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig** – Nodwyd y Clerc ei bod wedi gael trafodaeth drost y ffôn gyda Iwan ap Trefor, Cyngor Gwynedd. Addawodd ei fod am gynnig dyddiadau i gwrdd yn ystod mis Ebrill, ond heb dderbyn ymateb. Y Clerc i fynd ar ei ôl i geisio trefnu cyfarfod cyn gynted â phosib.

3.2 **Llecyn Tir, Bont Tŵr** –Derbyniwyd ymateb gan Chris Burgess o gwmni Breedon. Y Clerc i ffonio Chris i drafod ymhellach.

3.3 **Mynediad i Lôn Las Ogwen ger Garej Pandy** – Gwaith wedi ei gomisiynu i edrych ar wella'r arwyddion a'r marciau ffordd i'r fynedfa. Ar y gweill.

3.4 **Llwybr Rhif 3** – Nodwyd fod y Cyng. Dafydd Owen wedi trafod y mater hwn gyda'r swyddog llwybrau. Nodwyd fod y swyddog wedi'i drosglwyddo i uwch swyddog oherwydd fod yno ffens drydan yn y lleoliad. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

3.5 **Arhosfan bws ger Pant yr Ardd** – Y Clerc wedi gwneud cais am linellau melyn eraill yr ochr arall, ond heb dderbyn ymateb. Nodwyd Iwan ap Trefor, Cyngor Gwynedd eu bod yn defnyddio gwmni o ochrau Manceinion oherwydd nid yw'r cwmni ochrau Porthmadog gyda'r offer a'r adnoddau i gwblhau y math yma o waith.

3.6 **Drychau traffig -** Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd os oes modd gael drych traffig ar pen lôn Llwybr Main o gyfeiriad Lôn y Grug, dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc i holi unwaith eto.

**3.7 Carreg filltir hanesyddol** - Y Clerc i drefnu i ddanfon y lechan lawr i'r Storiel ym Mangor.

**3.8 Lôn y Wern, Tregarth** – Adroddodd y Cyng. Dafydd Roberts fod rhywfaint o'r gwaith wedi cael ei gwblhau.

**3.9 Diffyg ymateb Cyngor Gwynedd** – Y Clerc i gasglu tystiolaeth, i gynnwys tystiolaeth gan y Cynghorau eraill, a'i danfon ymlaen at Cyngor Gwynedd.

**3.10 Llythyr at Bwrdd Adra** – Y Clerc wedi danfon y llythyr ymlaen. Derbyniwyd ymateb gan Elliw Owen yn nodi ei bod wedi danfon y llythyr ymlaen at y Bwrdd – disgwyl ymateb.

**3.11 Canllaw Lon Las Ogwen ger Garej Pandy** – Nodwyd fod y swyddog llwybrau yn gobeithio ychwanegu y gwaith atgyweirio yma at y gwaith ail ffensio terfyn (ar ochr y llwybr beicio)

**3.12 Ysbwriel Lon Dinas** – Adroddwyd y Cyng. Dafydd Owen fydd grwp cymunedol Balchder Bro yn yr ardal yn fuan a bydd yn sicrhau fod yr ysbwriel hwn yn gael ei gynnwys.

**3.13 Graffiti ar hyd Lon Las** – Adroddwyd y Cyng. Dafydd Owen fod Cyngor Gwynedd wedi sefydlu grwp cymunedol i lanhau graffiti.

**3.14 Prydles Ganolfan Tregarth** – Nodwyd fod y Clerc wedi danfon yr addasiadau perthnasol at y Swyddog Eiddo yn Cyngor Gwynedd, ond heb dderbyn unrhyw ymateb eto. Nodwyd bydd y Cyng. Dafydd Owen yn ymweld a'r adran cyfreithriol i holi am yswiriant yr adeilad a'r costau cyfreithriol.

## 4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Ebrill 2022'

**Cyflwynwyd**: Ebost Beca Roberts, Partneriaeth Tirwedd y Carneddau – Cynllun y Carneddau – Penderfynwyd gwahodd Beca i'r cyfarfod ym mis Mehefin.

**Cyflwynwyd:** Gareth Llwyd – Adroddiad o'r Cynghorau Cymuned ar gyfer Llais Ogwan – Penderfynwyd y bydd y Cyngor yn penderfynu ar ddiwedd pob cyfarfod beth i gynnwys yn yr adroddiad. Y Clerc i gynnwys yr eitem ar yr agenda bob mis.

**Cyflwynwyd**: Ieuan Wyn, Cylch yr Iaith – Gwarchod enwau lleoedd Cymraeg – Penderfwynwyd cefnogi, y Clerc i ddanfon y llythyr ymlaen at Jeremy Miles AS a chopi at Sian Gwenllian AS.

**Cyflwynwyd:** Pwyllgor Cronfa Lleol Eisteddfod Llyn ac Eifionydd 2023 – penderfynwyd ail gyflwyno'r ohebiaeth yn cyfarfod mis Mai.

**Cyflwynwyd:** Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd – Ymgynghoriad cyhoeddus, Holiadur Anghenion Tai – Pawb i gwblhau'r holiadur fel unigolyn ac i danfon y wybodaeth ymlaen.

## 5. Gwaith y Mis

**Llwybr o Lon Las tuag at Moelyci** – Adroddwyd y Cyng. Dafydd Roberts fod y gwaith ar y llwybr a'r bont wedi gael ei gwblhau. Y Clerc i ebostio'r adran llwybrau i diolch iddynt am gwblhau'r gwaith. Y Clerc i gynnwys hwn yn adroddiad Llais Ogwan.

**Ffordd lawr am Ganolfan Tregarth** – Nodwyd y Cyng. Dafydd Owen fod y ffordd lawr am y Ganolfan angen i lanhau, y Clerc i hysbysu Adran Eiddo, Cyngor Gwynedd.

## 6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

**Canolfan Tregarth** – adroddwyd fod y pwyllgor yn disgwyl am dyfynbrisiau am goleuadau uwchben y drysau tân ac ar gyfer y drws i'r ystafell gyfarfod. Nodwyd hefyd fod canopi newydd wedi gael ei rhoid ar yr adeilad ar ochr yr ysgol feithrin.

**Ciciwr Calon, Canolfan Tregarth –** Adroddwyd y Cyng. Huw Jones fod y larwm ar y cabinet ddim yn gweithio, y Clerc i gysylltu a Tomos Hughes, Achub Calon y Dyffryn.
**Mainc Pentref Llandyagi –** Nodwyd fod y Cyngor wedi gael caniatad gan Gyngor Gwynedd i osod mainc newydd ym Mhentref Llandygai, ar yr amod ein bod yn ariannu a trefnu a cymryd cyfrifoldeb amdani. Y Clerc i edrych am brisiau erbyn y cyfarfod nesaf.

**7. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**
**7.1** Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Mawrth. Derbyniwyd yr adroddiad.

**8. Taliadau**
Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Geiriau Gwyn | Cyfieithu ar y pryd – Ionawr 2022 | £96.00 |
| Geiriau Gwyn | Cyfieithu ar y pryd – Chwefror 2022 | £96.00 |
| Geiriau Gwyn | Cyfieithu ar y pryd – Mawrth 2022 | £96.00 |
| Un Llais Cymru | Aelodaeth 2022-23 | £394.00 |
| Partneriaeth Ogwen | Cyfraniad at costau rhedeg y Llyfrgell | £713.79 |
| Partneriaeth Ogwen | Gwasanaeth Clercio | £8292.83 |
| Partneriaeth Ogwen | Cyfraniad at Swyddog Cynnal | £1168.63 |

**11. Penderfyniadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C18/0767/25/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety, adeilad derbynfa, a chreu 2 nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio ffyrdd mynediad cysylltiedig a meysydd parcio, tirweddu a gwaith cysylltiedig eraill.<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C22/0175/16/DT** | 8 Ar Afon, Mynydd Llandygai<br>Estyniadau un llawr<br>**Penderfyniad**: Ar y gweill. |
| **C22/0154/16/DT** | 30 Tal y Cae, Tregarth<br>Cais ar gyfer codi estyniad un llawr i gefn yr eiddo<br>**Penderfyniad**: Ar y gweill. |
| **C22/0238/16/LL** | Fferm Tan Y Foel Lôn Rallt, Pentir<br>Codi tŷ ar gyfer gweithiwr amaethyddol.<br>**Penderfyniad**: Ar y gweill. |

| | |
|---|---|
| **C22/0173/16/DT** | Gyfing, Sling<br>Codi ystafell gardd<br>**Penderfyniad**: Caniatawyd gyda amodau |
| **C22/0156/16/CR** | Managers Office, Porth Penrhyn Estate Office, Porth Penrhyn<br>Gosod 2 giat metal traddodiadol o fewn dau lleoliad ar wal ystad Penrhyn er mwyn creu mynediad cyhoeddus i'r Llwybr Arfodir Cymru<br>**Penderfyniad**: Ar y gweill. |
| **C22/0134/16/LL** | Plot C1, Parc Bryn Cegin, Llandegai<br>Datblygiad cyfleuster tanwydd Bio - nwy naturiol wedi ei gywasgu ar gyfer cerbydau gan gynnwys pympiau tanwydd, cwmpownd cyfarpar offer, creu mynedfeydd newydd, tirlunio a datblygiad cysylltiedig.<br>**Penderfyniad**: Ar y gweill. |

**12. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C22/0336/16/MW** | Alfred Mcalpine Slate Products, Chwarel Penrhyn<br>Cais ar gyfer estyniad i weithfeydd cloddio llechi<br>**Penderfyniad:** |
| **C22/0327/16/AC** | Alfred Mcalpine Slate Products, Chwarel Penrhyn<br>Cais o dan Adran 73 i amrywio amod 1 a 3 ar ganiatâd cynllunio C16/1164/16/MW (Cais o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i benderfynu ar amodau dan adolygiad cyfnodol) er mwyn ymestyn yr amser ar gyfer cloddio a gweithio deunydd hyd at 2035, ymestyn amser ar gyfer adfer y safle hyd at 2037 a diwygio cynlluniau er mwyn cynnwys estyniad i'r ardal cloddio<br>**Penderfyniad:** |

**C22/0319/16/TC**

Bryn Gwalchmai, Mynydd Llandegai
Tystysgrif datblygiad cyfreithlon i gadarnhau y byddai'r bwriad i osod carafán sy'n atodol i amaethyddiaeth yn gyfreithlon ac na fyddai'n gyfystyr â datblygiad y byddai angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer
**Penderfyniad:**

**13. Unrhyw fater brys arall**

**Ffurflenni Enwebu –** Adroddwyd fod llawer o'r Cynghorwyr wedi dewis i beidio sefyll ar gyfer yr etholiad ym mis Mai, yn cynnwys:

- Y Cyng. Angharad Williams
- Y Cyng. Mair Leverett
- Y Cyng. Gabrielle Wyn
- Y Cyng. Gwen Griffith

Nodwyd y bydd pump sedd wag yn dilyn yr etholiad ym mis Mai. Y Clerc i lunio llythyrau i ddiolch i'r Cynghorwyr am ei holl waith yn ystod y blynyddoedd.